# Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

***Welsh Language Advisory Panel***

**12 Mawrth 2026 am 2yp**
**Cyfarfod Aml-Leoliad**

**COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Carys Jones (Cadeirydd) | CJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru |
| Cyng. Sue Allen | SA | Annibynnol |
| Cyng. Meinir Jones | MJ | Plaid Cymru |
| Cyng. Edward Skinner | ES | Llafur |
| Cyng. Tina Higgins | TH | Llafur |
| **Swyddogion** | | |
| Ian Jones | IJ | Pennaeth Cymunedau Iach a Diogelu'r Cyhoedd |
| Kelly Morris | KM | Cynghorydd Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) |
| Sally Bennett | SB | Cynghorydd Dysgu a Datblygu (Gweithlu'r Dyfodol) |
| Ben Lloyd | BL | Rheolwr Datblygu Theatrau |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi a Phartneriaeth |
| Lynwen Davies | LD | Cyfieithydd |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynghorydd Jean Lewis, Paul Thomas a Gwyneth Ayers. | |

| | | |
|---|---|---|
| **2.** | **Theatrau Sir Gâr**<br><br>Croesawyd Ben Lloyd i'r cyfarfod, sef Rheolwr Datblygu'r Theatrau newydd i Gyngor Sir Gâr.<br><br>Nododd Ben ei gefndir a'i fod yn awyddus i ddysgu mwy oddi wrth Aelodau'r Panel. Mae Ben yn dysgu'r Gymraeg ac yn awyddus i ail-adeiladu ei hyder yn yr Iaith.<br><br>Penodwyd Ben i'r rôl ym mis Hydref 2025 ac mae'n dod o gefndir creadigol a chynhyrchu yn y maes theatrau. Mae'n arbenigo mewn cynhwysiant yn y maes theatr ac wedi bod yn Brif Weithredwr yn Theatr y Torch yn Sir Benfro cyn symud i Sir Gâr.<br><br>Amlinellodd Ben y cefndir o ran y theatrau a'r cyd-destun o ran lleoliadau a strwythur. Mae Theatrau Sir Gâr (TSG), sy'n cael ei weithredu gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CCC), yn rheoli tri lleoliad celfyddydau perfformio allweddol: Ffwrnes (Llanelli), Y Lyric (Caerfyrddin), a'r Glowyr (Rhydaman). Cenhadaeth y sefydliad yw tanio a meithrin creadigrwydd mewn ffordd gynhwysol a thrawsnewidiol, gan alinio ag amcanion llesiant y Cyngor a nodau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ehangach y rhanbarth.<br><br>Fel gwasanaeth theatr Sir Gâr, mae TSG yn eistedd o fewn y portffolio Gwasanaethau Diwylliannol sydd hefyd yn cynnwys Archifau, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd. Mae Gwasanaethau Diwylliannol yn eu tro ochr yn ochr â Actif Chwaraeon a Hamdden, Hamdden Awyr Agored a Diogelu'r Cyhoedd o fewn yr Is-adran Cymunedau Iach a Diogelu'r Cyhoedd, sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth Addysg a Hamdden CCC.<br><br>Mae TSG yn chwarae rhan annatod wrth gefnogi ecoleg theatr a chelfyddydau Cymru, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r theatrau yn sbardun economaidd allweddol, wedi'u lleoli yn y tair tref fwyaf poblog yn y sir ac yn gwasanaethu masnach leol a thwristiaeth. Mae TSG yn chwarae rôl gynyddol wrth gefnogi addysg, hyfforddiant, datblygu talent ac ymgysylltu creadigol yn y rhanbarth gyda blaenoriaethau strategol wedi'u halinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, ac mae'n bartner allweddol ar fentrau cenedlaethol sy'n hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysiant (Breaking the Box). Yn aelod gweithgar o Creu Cymru, (yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer sector celfyddydau perfformio bywiog a gwydn yng Nghymru) mae TSG yn derbyn cyllid rheolaidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.<br><br>**Gweledigaeth a Chenhadaeth**<br><br>**Gweledigaeth**: Sir Gaerfyrddin lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd bob dydd, ac mae pawb yn ymgolli mewn diwylliant dwyieithog cryf, hygyrch.<br><br>**Cenhadaeth**: Tanio a meithrin creadigrwydd mewn ffyrdd cynhwysol a thrawsnewidiol, gan helpu cymunedau i fyw bywydau iach, hapus a bodlon.<br><br>**Nodau Strategol**<br><br>• **Meithrin Creadigrwydd**: Cyflwyno, cynhyrchu ac annog cyfranogiad mewn rhaglenni celfyddydol amrywiol.<br>• **Hyrwyddo Cydraddoldeb**: Sicrhau mynediad cynhwysol i'r celfyddydau a hyrwyddo diwylliant dwyieithog.<br>• **Cryfhau Cymunedau**: Grymuso pobl trwy ymgysylltu a datblygiad sy'n seiliedig ar y celfyddydau.<br>• **Bod yn Gynaliadwy a Gwydn**: Gweithredu'n effeithlon, cofleidio arloesedd, ac ymateb i heriau'r dyfodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Esboniodd Ben y cyfleoedd recriwtio diweddar, lle bu modd recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'r gweithle. Gosodwyd targedau o ran hyfedredd yn y Gymraeg ar draws y tîm, a hynny erbyn mis Mawrth 2027.<br><br>Cydnabuwyd yr heriau o ran cynllunio perfformiadau a chynyrchiadau cyfrwng Cymraeg a nodwyd fod cyfarfod buddiol wedi ei gynnal gyda'r Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths er mwyn adolygu y rhaglenni sydd wedi bod mewn lle. Nodwyd siom y Cynghorydd Peter yn y nifer o gynyrchiadau cyfrwng Cymraeg a oedd wedi'u cynnwys yn rhaglen yr hydref.<br><br>Esboniwyd mai sioeau teithiol, sy'n cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol yw crynswth y rhaglen. Rydym felly yn ddibynnol ar greu incwm drwy wariant yn y bar ayyb. Amlinellwyd y costau o ran gwesteio sioe a nodwyd fod sioeau sy'n gwerthu llai o docynnau yn creu heriau penodol o ran ariannu.<br><br>O ran sioeau cyfrwng Cymraeg, nodwyd fod y sefyllfa o ran costau byw a chynnydd mewn costau yn cael effaith uniongyrchol ar lwyddiant berfformiadau. Nodwyd hefyd fod heriau o ran ariannu grant cynyrchiadau cyfrwng Cymraeg, gyda mwy o bwysau ar y cwmnïoedd o ran partneriaethau a theithio.<br><br>Esboniwyd hefyd fod poblogrwydd perfformiadau mewn neuaddau cymunedol ayyb yn creu risg arall i Theatrau Sir Gâr. Mae yna gystadleuaeth eang hefyd wrth geisio denu cwmnïoedd i ddefnyddio ein theatrau yn y sir, gyda'r nifer o sioeau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn lleihau.<br><br>Amlinellodd Ben rhai o'r ymyriadau y mae'r theatrau yn ceisio rhoi mewn lle. Nodwyd enghraifft o ran cwmni Mega, sy'n cael cynnig gofod penodol yn y Lyric, er mwyn ymarfer ac ati, tra'n sicrhau perfformiadau cyfrwng Cymraeg yn lleol. Cafwyd enghraifft arall o gynhyrchiad o'r Mabinogi, a fydd yn cael ei berfformio yn Saesneg ond gydag elfennau cryf o'r Gymraeg a Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r theatrau hefyd wedi gallu denu cyllid ychwanegol er mwyn cyflogi swyddog i arwain ar y blaenoriaethau, gan gynnwys y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd y tîm yn gweithio i adeiladu perthnasau gwaith gyda sefydliadau cymunedol, ynghyd â sefydliadau megis yr Egin, y Mentrau Iaith a'r Urdd.<br><br>Mae'r tîm yn monitro cynnydd o ran y Gymraeg drwy'r grant a dderbynnir gan Gyngor y Celfyddydau ynghyd a chynllunio cyfleoedd o'r newydd gyda phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym maes theatr.<br><br>Cafwyd ymholiad o ran sut dy ni'n marchnata perfformiadau cyfrwng Cymraeg. Esboniodd Ben bod y perfformiadau mwyaf yn cynllunio rhwng 9 a 18 mis ymlaen llaw; er hynny, mae rhai perfformiadau llai mor ddibynnol ar arian grant, fel bod yr amser sy'n arwain mewn yn brin iawn.<br><br>Esboniodd Ben ei fod yn awyddus i adolygu y cynllun marchnata, er mwyn adnabod cyfleoedd newydd at y dyfodol. Bydd ystyriaeth fanwl i'r Gymraeg fel rhan o hynny.<br><br>Ychwanegodd Ian Jones fod yna grŵp marchnata mewnol o fewn ei is-adran a'r gobaith yw y bydd cyfle i hysbysebu ar draws yr holl atyniadau megis y parciau gwledig.<br><br>Gofynnodd y Cyng. Glynog i ni ystyried pwysigrwydd Theatr y Glowyr ac i weld os oes cyfleoedd penodol o ran denu perfformiadau mwy lleol. Tanlinellwyd pwysigrwydd Y Glowyr i gymunedau Dyffryn Aman.<br><br>Nododd y Cyng. Peter Hughes-Griffiths ei werthfawrogiad i'r is-adran am y gwaith sy'n cael ei wneud ond nodwyd adborth o ran y gallu i ddilyn galwadau ffôn / cadw tocynnau drwy'r linell Gymraeg. | |

**3. Cynllun Prentisiaid Cyngor Sir Gâr**

Croesawyd Sally Bennett a Kelly Morris i'r cyfarfod.

Amlinellodd Sally y cynllun Amdani a nodwyd fod 25 o Brentisiaid wedi'u recriwtio drwy Raglen Gweithlu'r Dyfodol. Bu cyfle i recriwtio 17 ohonynt dros yr Haf 2025 a hynny yn seiliedig ar werthoedd.

Mae dwyieithrwydd wedi bod yn ystyriaeth graidd i'r recriwtio ac mae pob Prentis wedi derbyn cefnogaeth i ddatblygu a derbyn cymorth iaith Gymraeg. Amlinellwyd y gefnogaeth dysgu a datblygu sydd ar gael i'n prentisiaid, naill wyneb yn wyneb neu drwy blatfform Thinqi.

Esboniodd Sally y cynllun Graddedigion, a nodwyd ein bod wedi cefnogi 72 o raddedigion i ymuno a'r sefydliad. O'r rheini, mae 54 wedi sicrhau swyddi llawn amser gyda CSG. Nodwyd bod y cyngor yn cynllunio y rhaglen nesaf o raddedigion yn ystod yr Haf 2026. Y nod drwy'r cynllun yw i ddatblygu talent lleol, i adeiladu ein sgiliau arweinyddiaeth, i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant ac i ddenu ein gweithlu at y dyfodol.

Esboniodd Kelly y cyd-destun y gwaith cefnogi o ran sgiliau yn y Gymraeg. Nod Rhaglen Datblygu'r Gymraeg Amdani yw ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o arferion gwaith prentisiaid, ac mae hyn yn cynnwys

- Codi hyder i siarad a defnyddio'r Gymraeg
- Cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra yn unol â lefel gallu
- Creu rhwydweithiau cymorth drwy mentora
- Atgyfnerthu pwysigrwydd darparu gwasanaethau dwyieithog ar draws pob adran
- Sicrhau bod pob prentis yn teimlo'n werthfawr ac yn gallu defnyddio "yr hyn sydd ganddynt"

Amlinellodd Kelly rhai o'r sylwadau sydd wedi dod i law wrth y prentisiaid o ran defnydd o'r Gymraeg ac mae diffyg hyder wedi dod drwodd yn glir.

Esboniodd Kelly fod y tîm wedi cyflwyno pwysigrwydd y Gymraeg yn y ganolfan asesu a bod y prentisiaid a'u rheolwyr wedi mynychu gweithdy Gweithio mewn Sefydliad Dwyieithog gan IAITH, ynghyd â sesiwn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg gan Menter Gorllewin Sir Gâr. Mae pob prentis wedi derbyn cynllun datblygu Cymraeg unigol.

Amlinellodd Kelly y prif wersi a ddysgwyd, sef:

- Cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel elfen ganolog o ddarpariaeth CSG.
- Mwy o ddefnydd o Cymraeg bach bob dydd ("diolch", cyfarchion ac ati) mewn ysgolion a gweithleoedd.
- Mwynhau'r ddeinameg grŵp a'r dysgu.
- Anffurfiol a hwyliog.
- Tiwtor yn rhagorol.
- Awydd i siarad mwy o Gymraeg.

| | | |
|---|---|---|
| | • Parhau â datblygiad y Gymraeg.<br><br>Diolchodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths i'r tîm am eu gwaith wrth gynllunio o ran y Gymraeg.<br><br>Gofynnodd y Cyng. Carys Jones beth oedd y cyngor yn ei wneud o ran ceisio denu pobl ifanc (16 oed a throsodd)? Esboniodd SB y gwaith o ran ffeiriau gyrfaoedd a cheisio esbonio i bobl ifanc pa gyfleoedd gwaith sydd ar gael ar draws y cyngor.<br><br>Amlinellodd KM rhai o'r cyfleoedd sydd yn cael eu cynllunio o ran dysgu Cymraeg mewn partneriaeth a'r Ganolfan Dysgu Genedlaethol. Bydd y cyfleoedd yma'n cael eu cadarnhau ym mis Ebrill 2026.<br><br>Nododd y Cyng. Carys Jones bod rhaglen wedi bod ar waith lle roedd modd i bobl gysgodi Aelod o'r Cabinet, a byddai'n dda medru edrych ar hyn eto.<br><br>Nodwyd fod yna gynlluniau ar waith i recriwtio cohort newydd o brentisiaid yn ystod 2026. Bydd y disgwyliadau o ran y Gymraeg yn parhau ar yr un lefel. | |
| **4.** | **Cofnodion cyfarfod 11 Rhagfyr 2025**<br><br>Cytunwyd fod y cofnod yn rhai cywir. | |
| **5.** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Doedd dim materion yn codi. | |
| **6.** | **Dyddiadau'r cyfarfod nesaf:**<br><br>• *16 Mehefin 2026 am 2 yn y prynhawn.* | |